



AQA

CCEA

OCR

Pearson

CBAC

Canllawiau trefniadau safle arall

Yn ychwanegol i'r canllawiau hyn **rhaid** i ganolfannau hefyd gyfeirio at gyhoeddiad y CGC *Cyfarwyddiadau ar gynnal arholiadau* –

<http://www.jcq.org.uk/exams-office/ice---instructions-for-conducting-examinations>

1. **Dim ond ar gyfer arholiadau ysgrifenedig sydd wedi'u hamserlennu yn y cymwysterau canlynol y dylid defnyddio ffurflen gofrestru ar lein:**
DUE, Cymwysterau Cyffredinol Cymhwysol AQA, Cymwysterau Technegol Lefel 1, Lefel 2 a Lefel 3 AQA, Cymwysterau BTEC, (Dyfarniadau BTEC Firsts, BTEC Nationals a BTEC Tech), Cymwysterau Cenedlaethol Caergrawnt, Cymwysterau Technegol Caergrawnt, Dyfarniadau Edexcel, Cymwysterau TGAU Rhyngwladol Edexcel, TLM, Mathemateg Annibynnol (FSMQ), TAG, TGAU, Tystysgrifau Lefel 3 OCR, Cymwysterau Cyffredinol Lefel 1 a Lefel 2 CBAC, Dyfarniadau a Thystysgrifau Galwedigaethol Lefel 1 a Lefel 2 CBAC, a Thystysgrifau, Diplomâu a Diplomâu Estynedig Lefel 3 CBAC.
2. **Ni ddylid cyflwyno ffurflen gofrestru ar-lein ar gyfer asesiadau nad ydynt wedi'u hamserlennu** e.e. asesiadau dan reolaeth TGAU, gwaith cwrs TAG, asesiadau di-arholiad TAG TGAU, profion llafar Ieithoedd Tramor Modern, neu asesiadau ymarferol.
3. **Dim ond pan mae canolfan yn bwriadu cynnal arholiad ar gyfer unrhyw ymgeiswyr ar safle arall heblaw am gyfeiriad cofrestredig y ganolfan y dylid defnyddio ffurflen gofrestru ar-lein** (gweler dogfen y CGC – *Cyfarwyddiadau ar gynnal arholiadau*).
4. **Nid yw'r trefniadau safle arall yn ymdrin â threfniadau trosglwyddo ymgeiswyr.**
5. Rhaid trafod unrhyw ymholiadau am addasrwydd y safle arfaethedig â Gwasanaeth Arolygu Canolfannau'r CGC cyn llenwi'r ffurflen ar-lein.
6. **Rhaid** cadw papurau cwestiynau a deunyddiau arholiadau o dan amodau diogel yng nghyfeiriad cofrestredig y ganolfan tan **90 munud cyn amser dechrau swyddogol yr arholiad**. Yna, bydd aelod o staff y ganolfan yn mynd â'r papurau cwestiynau i leoliad yr arholiad.
7. **Cyfrifoldeb y ganolfan yw sicrhau bod y papurau cwestiynau a'r deunyddiau sgrifennu ar gyfer arholiadau yn cael eu cludo mewn modd diogel o fewn 90 munud i amser dechrau swyddogol yr arholiad yn ôl y corff dyfarnu.**
8. **Ni ddylid cludo deunydd cyn diwrnod yr arholiad ar unrhyw gyfrif.**

9. **Pennaeth y ganolfan sy'n gyfrifol am sicrhau y bydd yr arholiad(au) yn cael eu cynnal yn unol â dogfen y CGC *Cyfarwyddiadau ar gynnal arholiadau*.**

Rhaid cyflwyno'r hysbysiad o'r bwriad i gynnal arholiadau mewn safle arall ar-lein yn ddim hwyrach na chwe wythnos cyn dechrau'r gyfres arholiadau.

Fodd bynnag, os yw'r hysbysiad i ymgeisydd sydd am sefyll arholiad gartref neu yn yr ysbyty oherwydd cyflwr meddygol, rydyn ni'n sylweddoli ei bod yn bosibl na fydddech chi'n ymwybodol o fanylion y cyflwr chwe wythnos ymlaen llaw. O dan yr amgylchiadau hyn, dylid cyflwyno'r hysbysiad hwyr cyn gynted ag y bydd y manylion yn hysbys.

D.S. Nid oes angen cymeradwyaeth o flaen llawn i ddefnyddio safle arall. Rydych yn llenwi'r ffurflen ar-lein i hysbysu gwasanaeth arolygu canolfannau'r CGC y bydd eich canolfan yn cynnal arholiadau i ffwrdd o'r cyfeiriad cofrestredig. Felly, unwaith y byddwch wedi cyflwyno'r ffurflen, nid oes angen cysylltu â Gwasanaeth Arolygu Canolfannau'r CGC i gael cadarnhad bod y trefniant wedi'i gymeradwyo.

Cyngor:

Canolfannau yn Lloegr a'r Alban:

e-bost: jcinspectionsservice@aqg.org.uk

Ffôn 01483 556 271

Canolfannau yng Nghymru

e-bost: jcinspectionsservice@wjec.co.uk

Ffôn 02920 265 077

Canolfannau yng Ngogledd Iwerddon

e-bost: centresupport@ccea.org.uk

Ffôn 028 9026 1293